O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2507 (Cy. 276)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad Cyflymder 30 MYA a Diddymu Gwaharddiad ar Gerddwyr) 2012

Gwnaed	*01 Hydref 2012*
Yn dod i rym	*05 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 84 (1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27 o Atodlen 9 i'r ddeddf (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984") ac, wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 05 Hydref 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 30 MYA a Diddymu'r Gwaharddiad ar Gerddwyr) 2012.

2. Ni chaniateir i unrhyw un yrru cerbyd ar gyflymder o dros 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 1984 p27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 199/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

3. Mae’r gwaharddiad a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed neu sy'n effeithiol fel petaent wedi'u gwneud o dan Ddeddf 1984 neu drwy neu o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall ac nid yw’n rhan-ddirymu'r cyfyngiad neu'r gofyniad.

4. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd (Glyntaf i Abercynon, Morgannwg) (Gwahardd Cerddwyr) 1973(**1**) o ran y darnau hynny o Gefnffordd yr A470 a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 01 Hydref 2012

R Morgan
RICHARD MORGAN
Pennaeth Safonau Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

(**1**) O.S. 1973/947.

YR ATODLEN

Darnau o gefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 30 mya

(i) y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

(ii) y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street i bwynt 6 metr i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ATODLEN 2

Diddymu'r Gwaharddiad ar Gerddwyr

(i) y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

(ii) y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 6 metr i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.